PWYLLGOR CYMRU Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL CYMUNEDOL

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 12 Medi 2008 yn Uned Ddata Llywodraeth Leol, 3 – 7 Rhodfa Columbus, Caerdydd

Yn bresennol:
Tom Jones – Comisiynydd Cymru, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (Cadeirydd)
Lynne Schofield – Llywodraeth Cynulliad Cymru
Fran Targett – Cyngor ar Bopeth Cymru (Cadeirydd Fforwm Cenedlaethol CLS)
Catrin Williams - CAFCASS Cymru
Paul Newell – (Pennaeth Polisi Sifil), Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Gareth Moss – SOLACE Cymru
Graham Benfield – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Paul Davies – Cyfarwyddwr Cymru, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Alexy Buck – Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Dr Caroline Turner – Llywodraeth Cynulliad Cymru
Eleanor Williams – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Angela McCarthy – Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)

Staff Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol Cymru:
Tiana Williams – Rheolwr Polisi Cymru
Emma Rouse – Datblygydd Polisi
Tracy Scott – Ysgrifenyddiaeth

Ymddiheuriadau:
Clare Pillman - GLIEM
Naomi Alleyne – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Rhys Evans – Cyngor Defnyddwyr Cymru
Crispin Passmore – Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

1. Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Chroeso

Croesawodd Tom bawb i'r cyfarfod a nodwyd ymddiheuriadau ar ran yr uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2008

Cytunwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.
Cytunwyd hefyd fod cofnodion y cyfarfod darparwyr yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

3. Materion yn codi

Yn dilyn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol, cadarnhaodd Tom Jones ei fod wedi ei ddosbarthu i holl aelodau'r pwyllgor a bod datganiad i'r wasg wedi'i gyhoeddi. Yr oedd y ddogfen ar gael hefyd ar wefan Gwasanaethau Cyfrieithio Cymunedol (GCC).

Cadarnhawyd nad oedd dim materion yn codi yn sgil cofnodion y cyfarfod Darparwyr.

4. Diweddariad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Cyfreithiol

Cafwyd diweddariad byr gan Tiana Williams ar y CLAN arfaethedig yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Cynhaliwyd cyfarfod agored ar 5 Medi i ymgynghori ar fanyleb ddrafft y gwasanaeth. Yr oedd y cyfnod ymgynghori'n para tan 26 Medi a derbyniwyd lefel sylweddol o adborth yn ystod y gweithdai a chyn y cyfarfod agored. Yr oedd cyfarfod arall o Grŵp Llywio CLAN wedi'i drefnu ar gyfer diwedd y mis i ddadansoddi'r ymatebion a gafwyd ac i lunio'r fanyleb o'r newydd, cyn i bob un o'r cynghorau ei gyflwyno i'w cabinet yn ystod mis Hydref / Tachwedd. Yr oedd amserlen dendro dros dro wedi cael ei chynhyrchu'n barod pe bai'r penderfyniad i gomisiynu ar y cyd yn cael ei dderbyn ar yr adeg hon a dywedwyd y byddai'r broses dendro'n cael ei chynnal yn y Flwyddyn Newydd. Byddai unrhyw ddiweddariadau dros dro'n cael eu hanfon at y Pwyllgor fel maent yn codi, gydag adroddiad llawn ar gael yn y cyfarfod ym mis Mawrth.

Yn ôl Fran Targett, er bod amheuon cyffredinol ynghylch y CLAN arfaethedig, dangosodd yr adborth a gafwyd gan gydweithwyr yn ddiweddarach bod y cyfarfod wedi bod yn un defnyddiol dros ben i ddarparwyr. Dywedodd Gareth Moss eu bod, o safbwynt y cyngor, yn hapus gydag ansawdd y cyfraniadau a'r ymgysylltu positif. Dywedodd Fran Targett fod gweithiwr Cymunedau yn Gyntaf wedi dweud nad oedd neb wedi cysylltu â hwy cyn y digwyddiad. Cadarnhaodd Tiana eu bod wedi cysylltu'n ffurfiol â phob cydlynydd Cymunedau yn Gyntaf cyn y digwyddiad fel rhan o'r broses ymgysylltu ac mai cymysg fu'r ymateb i hynny.

Awgrymodd Fran Targett efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried y goblygiadau o safbwynt TAW pe bai contract sengl yn cael ei ddyfarnu. Cytunodd Paul Newell y byddai angen egluro'r sefyllfa o ran TAW a dywedodd fod yr LSC wedi bod mewn sefyllfa debyg o'r blaen ar adeg trefniadau comisiynu ar y cyd a bod y rhain wedi cael eu datrys.

Gofynnodd Graham Benfield pa mor debygol oedd hi y byddai'r CLAN yn mynd yn ei flaen ac a oedd yn fater o roi cydsyniad ffurfiol yn unig. Cadarnhaodd Tiana Williams nad dyna oedd yr achos ac y gellid ei wrthod yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar unrhyw adeg, gan unrhyw un o'r awdurdodau lleol. Yr oedd y fanyleb a luniwyd yn seiliedig ar y lefelau cyllido presennol gan gofio y byddai asesiad llawn o anghenion yr ardal ac unrhyw benderfyniadau cyllido yn y dyfodol yn cael eu gwneud gan bob un o'r awdurdodau lleol.

Dywedodd Paul Newell fod trafodaethau pwysig wedi cael eu cynnal â'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Cysylltid â'r adrannau ymchwil ym mhrifysgolion y Gogledd yn y mis canlynol i ganfod yr hyn y gallent ei gynnig o ran dadansoddiad o anghenion ac asesiad o'r gwasanaethau sydd ar gael eisoes. Yr oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng y ddarpariaeth yn ardal pob awdurdod lleol ac yr oedd rhai Cynghorau am adolygu beth oedd yn cael ei ddarparu'n fewnol, gan y byddai hynny'n esbonio i raddau pam fod gwahaniaeth yn yr arian a oedd yn cael ei neilltuo ar gyfer gwasanaethau cynghori. Fel rhan o'r dadansoddiad o anghenion hwnnw, rhagwelwyd y byddid yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cyfrannu at y broses. Yn dilyn y cam hwn, byddai'r awdurdodau lleol yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain a oeddent am fwrw ymlaen â chomisiynu ar y cyd. Yr oedd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei lunio ar hyn o bryd, a oedd yn ymrwymo'r awdurdodau lleol i weithio ar y rhan gyntaf hon o'r prosiect, ac i baratoi adroddiad a fyddai'n cael ei hystyried gan wleidyddion lleol i benderfynu a oeddent am fwrw ymlaen. Nid oedd amserlen wedi'i phennu.

Dywedodd Alexy Buck fod prosiect ymchwil yn cael ei gynnal gyda CLACau a CLANau, ac y byddai'n edrych ar y broses sy'n gysylltiedig â'u sefydlu yn ogystal ag astudiaeth o ganlyniadau, a fyddai'n canolbwyntio ar y cleientiaid. Yr oedd yr ymchwil yn cynnwys CLACau a CLANau gweithredol, a rhai yn y cam datblygu. Pe bai CLAN yng Nghymru wedi datblygu'n ddigonol yna byddai'n cael ei gynnwys

yn yr astudiaeth broses. Byddai adroddiad yn cael ei gynhyrchu ym mis Rhagfyr 2009 ac yr oedd yr astudiaeth broses yn cael ei thendro gyda'r bwriad o benodi rhywun ym mis Tachwedd. Oherwydd yr amseru, dywedodd Fran Targett nad oedd yn debygol y byddai'r astudiaeth ganlyniadau yn cynnwys CLANau yng Nghymru. Cadarnhaodd Tom Jones er y gellid cwblhau'r astudiaeth erbyn y cyfnod hwnnw, byddai'r gwaith gwerthuso'n parhau gan ddefnyddio dulliau eraill. Cadarnhaodd Paul Newell nad oedd dim cynlluniau i gyflwyno canolfannau na rhwydweithiau ar raddfa fawr ym mis Ebrill 2010.

Dywedodd Paul Newell nad oedd yn amlwg a fyddai'r fanyleb ddrafft ar gyfer contractau teulu yn cwrdd ag amserlen 2010. Bydd y comisiwn yn cwrdd yn ddiweddarach yn y mis a chafwyd cyfarfodydd rheolaidd â chynrychiolwyr. Nid oedd y ddogfen wedi'i chymeradwyo eto a chytunodd Tiana Williams i anfon yr ymgynghoriad at y Pwyllgor pan fydd yn barod. Nododd Paul Newell y byddai digwyddiadau ymgysylltu'n cael eu cynnal gyda darparwyr ym mis Tachwedd ac y byddai aelodau'r Pwyllgor yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol.

Cafwyd diweddariad gan Paul Newell ar y tendr am wasanaeth cyngor dyledion wyneb yn wyneb ym mhedwar carchar Cymru. Mae hyn wedi'i ariannu gan y Trysorlys trwy'r Gronfa Cynhwysiant Ariannol a'r Comisiwn Gwasanaethau Cynghori. Mae'r LSC wedi bod yn cydweithio'n agos â NOMS i gynhyrchu Manyleb Gwasanaeth a diolchwyd i Angela McCarthy am ei chymorth gyda'r gwaith hwn. Nodwyd mai diwedd Medi oedd y dyddiad cau a'r gobaith oedd y gellid dyfarnu'r contractau yn ystod mis Hydref. Rhagwelwyd y gellid cysylltu'r gwasanaeth gyda'r ddarpariaeth bresennol a phrosiectau eraill. Yr oedd yr arian yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu cyngor cyffredinol ar ddyledion a byddai'n gweithredu fel ffordd o alluogi pobl i dderbyn cyngor pellach. Byddai'n bwysig asesu effaith y cyngor ar aildroseddu.

Dywedodd Alexy Buck fod y gwerthusiad o'r Prosiect Cyngor Ariannol, a oedd yn cynnwys cyngor mewn carchardai, wedi'i gwblhau a bod yr adroddiad yn debygol o gael ei gyhoeddi ym mis Hydref. Hysbysir y Pwyllgor pan fydd y ddogfen ar gael.

Cafwyd diweddariad gan Tiana Williams ar y ddau weithdy Cymorth Tendro a oedd wedi'u cynnal gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, GCC, Cymdeithas y Cyfreithwyr a Chynghrair y Gwasanaethau Cynghori, a dosbarthwyd yr hysbyseb a oedd wedi'i gyhoeddi. Yr oedd y digwyddiadau'n sesiynau 2 awr o hyd ac fe'u cynhelir ar 16 a 18 Medi yn y De a'r Gogledd. Cyfraniad y GCC yn y digwyddiadau oedd canolbwyntio ar y profiadau a gafwyd trwy dendro am y CLACau hyd yma a rhannu'r gwersi a ddysgwyd. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig mwy o gymorth ac i gynnal y gweithdai ffurfiol y byddai cyfranogwyr ar y dydd yn cael gwahoddiad i gofrestru ar eu cyfer ar y diwrnod. Byddent hefyd yn gallu cofrestru i dderbyn cymorth un i un, i dderbyn cyngor ar sut i ddatblygu bid, i edrych ar brif elfennau tendro a'r prif agweddau sydd angen sylw. Yr oedd y gweithdai'n rhan o brosiect peilot ac ni ragwelir ar hyn o bryd y caiff ei efelychu yn Lloegr hyd nes y byddant wedi cael eu gwerthuso. Dywedodd Tom Jones fod nifer dda wedi dangos diddordeb yn y De ond bod y niferoedd yn y Gogledd yn isel ar hyn o bryd. Yr oedd hyn yn pwysleisio'r angen i feithrin arbenigedd yn y mudiadau hynny a oedd yn fach o ran maint a lle'r oedd y lefelau gallu'n isel a lle'r oedd perygl o gael Cymru dwy haen. Cytunodd Fran Targett i ddosbarthu'r daflen i atgoffa'r aelodau.

5. Cynnwys llais y client mewn penderfyniadau comisiynu

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, yr oedd Paul Newell, Gareth Moss a Graham Benfield wedi cwrdd i drafod sut y gellid sicrhau bod llais y client yn cael ei glywed yn ystod y broses gomisiynu.

Dywedodd Gareth Moss eu bod yn cytuno ar yr egwyddor o bwysigrwydd sicrhau cysylltu â dinasyddion i ganfod eu barn, ond na allai hynny danseilio'r broses benderfynu yn y pen draw. Dywedodd Graham Benfield hefyd eu bod wedi cael cytundeb y gallai llais dirprwyol di-ddarparwr y dinesydd gael ei glywed trwy'r GCSau, a oedd wedi cytuno i fod yn rhan o'r broses.

Er bod cytundeb ynghylch yr egwyddorion, pwysleisiodd Paul Newell nad oedd cytundeb eto sut y byddid yn mynd ati i drefnu'r broses dendro a phenderfynu. Cytunwyd fod mwy awydd i ymgysylltu â chleientiaid yng Nghymru nag yn Lloegr a'i bod yn bwysig bod yr ymgysylltu hwnnw'n ystyrlon.

Bydd Paul, Graham a Gareth yn cwrdd eto i barhau â'r trafodaethau hyn a byddant yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

6. Diweddariad ar bobl ifanc

Dywedodd Tiana Williams fod holiadur wedi cael ei lunio i ganfod barn pobl ifanc a'u bod hefyd wedi gofyn am farn aelodau'r Pwyllgor. Yr oedd yr holiadur wedi cael ei ddefnyddio mewn dwy ffair ar gyfer glas fyfyrwyr yng Nglynebwy a Cross Keys, lle cwblhawyd 141 o ffurflenni, ac er mwyn cymell y bobl ifanc i'w llenwi cynigiwyd I-pod fel gwobr. Nodwyd y byddid yn tynnu enw'r ddau enillydd o'r het ar ddiwedd y cyfarfod. Yr oedd Cyngor Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot wedi cytuno i ddosbarthu'r holiadur ymhlith ei aelodau ac yr oedd Carchar y Parc wedi cytuno i'w ddosbarthu yn ei uned Troseddwyr Ifanc. Y gobaith oedd y gallai pobl ifanc eraill gwblhau'r holiadur yn ystod yr wythnosau nesaf, a bod croeso i unrhyw awgrymiadau pellach gan aelodau'r Pwyllgor ar ddulliau o wneud hyn. Byddai'r canfyddiadau ar gael yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

Dywedodd Tiana Williams y byddai'r pwyslais yng nghyfarfod mis Rhagfyr ar bobl ifanc ac y byddai'n cynnwys mudiadau sy'n cynrychioli pobl ifanc a rhai sy'n ymddiddori neu sydd â rôl i ymgysylltu â, neu ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer. Roedd y rhai y gellid eu gwahodd yn cynnwys Canllaw Online, yr Urdd, y Ddraig Ffynci a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS). Yr oedd James Kenrick o Gynllun Mynediad i'r Ifanc wedi cytuno i fynychu'r cyfarfod ac i roi trosolwg ar ymchwil a gynhaliwyd i angen pobl ifanc i gael gafael ar wasanaethau cyngor cyfreithiol a oedd i gael ei chyhoeddi fis Rhagfyr.

Awgrymodd Alexy Buck y dylid cysylltu â Thasglu PLEAS gan eu bod yn comisiynu ymchwil ar bobl ifanc a chytunodd i roi eu manylion cyswllt i Tiana. Awgrymwyd hefyd y gellid gwahodd Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr gan ei bod wedi ariannu prosiectau yn y gorffennol.

Er bod y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Cynllun Mynediad i'r Ifanc yn fan cychwyn da, awgrymodd Fran Targett bod perygl o gael cyflwyniadau gan fudiadau ar yr hyn yr oeddent wedi'i wneud yn hytrach nag ar yr hyn sydd ei angen ar y bobl ifanc maent mewn cysylltiad â hwy. Gellid gofyn i'r mudiadau a yw'r wybodaeth a roddir gan y Cynllun Mynediad i'r Ifanc yn nodweddiadol o'r sefyllfa fel yr oeddent hwy'n ei gweld mewn ymdrech i gael trafodaeth ystyrlon ac adborth. Cadarnhaodd Tiana Williams nad oedd dim un mudiad arall wedi derbyn gwahoddiad i roi cyflwyniad.

Dywedodd Tom Jones mai un nod oedd codi ymwybyddiaeth o'r cymorth cyfreithiol sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghymru. Un ffordd o wneud hyn oedd canfod pa mor ymwybodol oedd y mudiadau o'r holl gyfleusterau, llinellau cymorth a darparwyr sydd ar gael. Yr oedd yn bwysig sicrhau bod y wybodaeth yn cyrraedd y bobl ifanc sy'n aelodau o'r gwahanol fudiadau.

Cytunodd Tiana Williams i lunio cynllun amlinellol ar gyfer y digwyddiad a'i anfon at aelodau'r Pwyllgor. Cytunwyd y byddai'r cyfarfod hwn yn gyfle da i rwydweithio a thrafod dulliau o ymgynghori ac ymgysylltu â phobl ifanc.
Awgrymodd Gareth Moss y gallai'r Maer Ieuenctid gymryd rhan o gofio'r problemau y mae pobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'u hwynebu'n ddiweddar, a chytunwyd y dylai llywodraeth leol fod â mwy o ran yn y broses.

7. Rhaglen waith Pwyllgor Cymru
Pwyslais ar ymgysylltu â dinasyddion; canfod cynlluniau ar y cyd y presennol neu'r dyfodol

Dywedodd Tiana Williams nad oedd dim sylwadau wedi'u derbyn gan aelodau'r Pwyllgor ers y cyfarfod diwethaf o ran eitemau ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor yn y dyfodol. Er bod disgwyl i gydweithredu ddigwydd y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol mae angen i Aelodau'r Pwyllgor feddwl ymlaen o ran eu hagendâu a'u cynlluniau eu hunain, pa rai y byddent yn eu hoffi, am dynnu sylw atynt neu eu trafod â'r Pwyllgor yn ystod y deuddeng mis nesaf.

Y bwriad oedd tynnu sylw at unrhyw eitemau o'r fath a chynhyrchu amserlen o gyfarfodydd, yn hytrach na rhaglen waith bendant. Gwelwyd fod angen cwrdd neu ymgysylltu â darparwyr a dinasyddion yn flynyddol. Yr her oedd sicrhau bod y rhain yn digwydd mewn ffordd ystyrlon lle byddai holl aelodau'r Pwyllgor yn teimlo eu bod yn elwa ar y broses. Dywedodd Tiana ei bod wedi gofyn i Fforwm Cenedlaethol Gwasanaethau Cynghori Annibynnol CLS ystyried ac adrodd yn ôl ar yr hyn yr hoffent weld yr ymgysylltu blynyddol yn canolbwyntio arno. Cytunwyd bod angen i'r Pwyllgor benderfynu ar yr hyn yr hoffai ei gael o'r cyfarfodydd a drefnir bob blwyddyn.

Yn achos darparwyr, awgrymodd Fran Targett y gallai cyfarfodydd y dyfodol geisio cynnwys gwybodaeth ar y gwahanol strategaethau a sut maent yn cael eu gweithredu, er mwyn iddynt ddwyn ynghyd y cwestiynau sy'n berthnasol iddynt. Yr oedd darparwyr hefyd yn awyddus i edrych yn fwy manwl ar y cysylltiadau rhwng y Fforwm Cenedlaethol a'r Grŵp Cyfeirio Darparwyr yng Nghymru, i geisio sicrhau gwell cysylltiad rhyngddynt. Nodwyd fod Advice UK ar fin cyhoeddi adroddiad ar systemau cynghori a darpariaeth y sector cyhoeddus, ac yr oedd hyn yn rhywbeth y gallai'r Pwyllgor ei drafod. Cytunodd Fran i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau sy'n deillio o'r adroddiad.

Awgrymodd Tom Jones fod y Pwyllgor yn cadw at y trefniadau presennol a phwysleisiodd y dylid manteisio ar gyfleoedd i gydweithio pan oedd hynny'n bosibl a bod angen osgoi unrhyw ailadrodd. Yr oedd angen i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau gwleidyddol a chyfreithiol yng Nghymru a allai effeithio ar ddarparwyr cyngor a'u gwasanaethau. Awgrymwyd y gellid gwahodd elfennau penodol o Lywodraeth Cynulliad Cymru neu bartneriaid eraill i'r cyfarfodydd o bryd i'w gilydd i sôn am yr effaith y gallai unrhyw ddeddfwriaeth ei chael ar wasanaethau cynghori. Dywedodd Tom yr hoffai wahodd Cadeirydd newydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i'r cyfarfod ym mis Mawrth a hefyd Ruth Marks, y Comisiynydd Pobl Hŷn.

8. Diweddariad ar Fforwm Cenedlaethol Gwasanaethau Cynghori Annibynnol CLS

Dywedodd Fran Targett fod aelodau'r fforwm yn parhau i fod yn bryderus ynghylch y CLAN ac yn amau a fyddai'n gwella pethau i gleientiaid yn y tymor hir. Bydd aelodau'n ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad ac yr oeddent yn bwriadu cyfrannu ar bob lefel i helpu i wella'r fanyleb. Yr oedd llawer o'r cwestiynau a oedd ynghlwm wrth y drafft presennol yn ymwneud â sicrhau ei fod yn cynnwys pethau y tu hwnt i ddarnau o gyngor unigol. Yr oedd perygl y gallai ansawdd y gwaith ddioddef, ac y gallai gwirfoddolwyr a gwaith adfywio cymunedol gael eu colli.

Gofynnodd Paul Newell a oedd y darparwyr mewn cysylltiad â'i gilydd ac yn rhoi eu hunain mewn sefyllfa i gyflwyno bid, er bod ganddynt amheuon ynghylch y rhwydwaith arfaethedig. Cadarnhaodd Fran Targett eu bod mewn cysylltiad.

9. CAFCASS Cymru – diweddariad

Cafwyd trosolwg gan Catrin Williams ar Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 a cham dau, a oedd yn ymwneud ag achosion cyfraith breifat. Yr oedd i gael ei gweithredu ar 27 Tachwedd, ac y byddai hynny'n golygu goblygiadau pellgyrhaeddol. Yr oedd grwpiau tadau wedi dylanwadu'n drwm ar y ddeddfwriaeth. Yr oedd tair miliwn o blant yn cael eu heffeithio gan rieni'n gwahanu bob blwyddyn, a cheir cytundeb cyffredinol ar breswylfannau a chysylltiad. Ceir anghydfod mewn tua 10% o achosion a oedd yn arwain at achos llys. Yr oedd anawsterau'n codi pan oedd un person yn gwrthwynebu'r trefniadau cyswllt. Ar hyn o bryd, yr oedd gan y llys bwerau i roi rhiant mewn carchar, i gyhoeddi gorchymyn carchar gohiriedig, cyflwyno dirwy neu drosglwyddo preswylfannau wedi'u cyfyngu.

Yr oedd darpariaeth newydd yn galluogi'r llys i hwyluso cysylltiad ac i orfodi gorchmynion llys, ac yr oedd yn derbyn mwy o bwerau i weithredu pe torrid gorchmynion cysylltu. Yr oedd llysoedd wedi derbyn pwerau i gyfarwyddo parti i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyswllt a oedd yn cynnwys dosbarthiadau, cwnsela a sesiynau cyfarwyddo.

Ni fyddai cyllid grant ar gael, ond contractau pris sefydlog yn hytrach. Yr oedd y broses dendro'n cychwyn yr wythnos ganlynol, gyda chontractau'n cael eu llofnodi erbyn 28 Hydref. Yr oedd y rhaglen wedi cael ei hysgrifennu eisoes, ac roedd hynny'n golygu y byddai modd darparu'r gwasanaeth ar unwaith.

Yr oedd llawer o waith wedi cael ei wneud gan CAFASS Cymru er mwyn ysgogi'r farchnad ac roedd y Pwyllgor o'r farn bod cyfle i rannu arferion gorau. Dywedodd Fran Targett bod gan WCVA bapur ar gomisiynu gan y sector cyhoeddus a chysylltiadau tymor hir â mudiadau. Cytunodd Fran i anfon y ddogfen at Tiana Williams.

10. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – diweddariad

Cafwyd diweddariad gan Eleanor Williams ar y Ddeddf Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Yr oedd yr ystatud yn cynnwys cyfuniad o bwerau cyfreithiol i annog a hyrwyddo, ac weithiau i orfodi a chosbi. Mae'n fwriad i gryfhau'r tîm cyfreithiol yng Nghymru a dod â phobl at ei gilydd trwy rannu gwybodaeth. Gofynnwyd i'r Pwyllgor sut y gallai gyfrannu at hyn. Dosbarthwyd y ddogfen Strategaeth Cymru. Y bwriad oedd sefydlu panel o gyfreithwyr, a fyddai o bosibl yn cysylltu â'r gwasanaethau ffôn presennol ac yn cael ei gynnwys mewn digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth.

Cytunodd Tiana Williams a Paul Newell i anfon gwybodaeth ymlaen am y Pwyllgor a'i waith.

11. Dyddiad Cyfarfodydd y Dyfodol

Nodwyd mai 6 Mawrth, 5 Mehefin, 11 Medi a 4 Rhagfyr fydd dyddiad y cyfarfodydd yn 2009.

12. Unrhyw fater arall

Dywedodd Paul Davies fod prosiect peilot Cyngor Cyfreithiol Cymunedol yn cynnwys trefnu apwyntiadau i bobl i dderbyn cyngor wyneb yn wyneb ar ôl defnyddio gwasanaeth ffôn CLA yn mynd yn ei flaen yn dda ac yr oedd 90% o'r bobl wedi cyrraedd eu hapwyntiadau. Fodd bynnag, ychydig iawn oedd angen cyngor wyneb yn wyneb ac yr oedd angen i fwy o bobl wneud defnydd ohono. Yr oedd gan y Comisiwn gyllideb i gyflawni miliwn gweithred o gymorth ac ar ôl dim ond pedwar mis o'r flwyddyn, yr oedd y niferoedd yn llawer is na'r hyn a ddisgwylid.

Yr oedd y Grwpiau Cyfeirio Darparwyr yn cael eu cynnal bob chwarter i drafod y materion a oedd yn cael eu datblygu ar y pryd ac i ddysgu mwy am faterion lleol. Yr oedd y wefan yn cael ei hail-ddylunio i sicrhau ei bod yn ateb gofynion y darparwyr.

Yr oedd Prif Weithredwr y GCC, Carolyn Regan, wedi ymweld â stondin Cyfiawnder Cymru yn yr Eisteddfod, lle'r oedd yr holl bartneriaid cyfiawnder wedi lansio cynllun i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gyson trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellid defnyddio termau cyfreithiol mewn gwahanol ffyrdd wrth eu cyfieithu, a oedd hyn yn peri dryswch i gleientiaid. Yr oedd GLIEM yn awr yn sicrhau'r cysondeb hwnnw. Yr oedd yr LSC yn awyddus i edrych ar rwystro yn hytrach na gwella ac yr oedd wedi cynhyrchu priciau cof mewn partneriaeth â Chymdeithas y Cyfreithwyr, Cyngor ar Bopeth Cymru, Shelter Cymru a Chanllaw Online. Nod y priciau cof oedd helpu pobl ifanc i fanteisio ar wasanaethau cynghori ac fe'u cyflwynwyd i Urdd Gobaith Cymru.

Dywedodd Lynne Schofield fod digwyddiad yn edrych ar allu ariannol yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd ar 26 Tachwedd a bod croeso i aelodau'r Pwyllgor ei fynychu.